



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Staff Nyrsio
Nurse Staffing

Lefelau

Gofal Cymru

Argraffiad 1

Cynnwys

Rhagair	4
Crynodeb Gweithredol	5
Cyflwyniad	7
Sut i ddewis y lefel gofal cywir	7
Cwestiynau Cyffredin.....	8
Beth yw craffter?	8
Pam fod y ddogfen yn cynnwys cymaint o ddisgrifiadau?	8
Oes hyfforddiant ar gael i gynorthwyo staff i ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru?.....	8
Pam bod y lefelau'n cael eu rhestru o 1 i 5?	8
Pam cael Disgrifiadau Lleyg?	8
Rydw i'n pryderu nad yw'r amser y casglwyd y data yn adlewyrchu craffter arferol y ward yn gywir.....	9
Beth ddylwn i'w wneud os yw'r gwely yn wag neu wedi ei wagio'n ddiweddar ar amser y casglu data?....	9
Sut ydw i'n graddio claf sydd angen gofal 1:1 yn seiliedig ar ei lefel angen, er bod y cleifion yn cael eu carfannu oherwydd diffyg argaeledd adnoddau?	9
Sut ydw i'n dosbarthu cleifion sy'n cael eu carfannu?	10
Pam fod y lefelau wedi cael eu hailenwi? A fydd y cyswllt â'r lefelau gofal hanfodol yn cael ei golli?	10
Ydy'r cyfarpar yn parhau i fod yn gywir, hyd yn oed ar ôl newid rhai o'r disgrifiadau?.....	10
Ydym ni'n defnyddio lluoswyr i benderfynu faint o aelodau staff sydd eu hangen?	11
Sut gallwn ni fesur yr amser a dreuliwyd ar fynychwyr / hebryngwyr ward?.....	11
Sut mae'r data'n cael ei ddadansoddi?	11
Pam cymryd ciplun o ddata'r archwiliad?	11
Sut y gallwn ni fesur craffter mewn meysydd trosiant uchel?	12
Disgrifwyr Lleyg	13
Disgrifwyr Clinigol.....	14
Thema Nyrsio 1.....	15
Asesu ac Arsylwi	15
Thema Nyrsio 2.....	16
Anadlu.....	16
Thema Nyrsio 3.....	17
Gofal Un i Un, Maetheg a Hydradiad.....	17
Thema Nyrsio 4.....	18
Gwybyddiaeth a Chyfathrebu.....	18
Thema Nyrsio 5.....	19
Meddyginiaeth	19
Themâu technegol ac arbenigol ychwanegol.....	20



Gwybodaeth am y Ddogfen

Teitl: Lefelau Gofal Cymru (Argraffiad 1)

Dyddiad: 18/12/2017

Crynodeb:

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan er mwyn cynorthwyo timau nyrsio lleol sy'n cyfrannu at yr archwiliad craffter cenedlaethol mewn wardiau meddygol a llawdriniaethol aciwt i oedolion. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Joanna Doyle

Rheolwr Rhaglen Staff Nyrsio Cymru

Gyfan

Iechyd Cyhoeddus Cymru

joanna.doyle2@wales.nhs.uk

Matt Wyatt

Cynghorydd Raglen Staff Nyrsio Cymru

Gyfan

Iechyd Cyhoeddus Cymru

matt.wyatt@wales.nhs.uk

Rhagair



Cymru yw'r wlad gyntaf yn Ewrop i'w gwneud hi'n rhwymedigaeth gyfreithiol i Fyrddau Iechyd gyfrifo a chymryd camau i gynnal lefelau staffio nyrsys. Heb amheuaeth, mae'r dystiolaeth yn nodi bod cael y nifer gywir o nyrsys cofrestredig a'r cymysgwch cywir o sgiliau yn gostwng graddfeydd marwolaethau ymysg cleifion ac yn gwella eu deilliannau. Roedd sicrhau bod gan gleifion safon uchel o ofal yn ganolog i'n penderfyniad i gefnogi cyflwyno'r Ddeddf.

Mae Lefelau Gofal Cymru yn elfen hollbwysig o weithredu'r Ddeddf yn ymarferol, gan ffurfio traean o'r dull triongli y mae gofyn i Fyrddau Iechyd ei ddefnyddio wrth gyfrifo eu lefelau staffio nyrsys. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn eglur bod rhaid i unrhyw offer cynllunio gweithlu a ddefnyddir fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn benodol i gyd-destun Cymru. O ystyried y profi iteradd a'r mireinio sydd wedi cael ei wneud dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf, rwy'n hyderus bod Lefelau Gofal Cymru'n cwrdd â'r meini prawf ac y byddant yn darparu dull gwaith cyson a safonol i nyrsys yng Nghymru wrth nodi craffter eu cleifion ar wardiau meddygol a llawdriniaethol i oedolion.

Hoffwn ddiolch i Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan a'r nifer fawr o nyrsys ledled y wlad sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r ddogfen hon. Mae eu gwaith caled wedi gosod y sylfeini ar gyfer cynhyrchu offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn galluogi'r Ddeddf i gael ei defnyddio mewn lleoliadau gofal eraill yn y dyfodol ac i rymuso mwy fyth o nyrsys, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau ar gael i ofalu am gleifion mewn ffordd fwy sensitif.

Yr Athro Jean White CBE

Prif Swyddog Nyrsio (Cymru)

Nyrs Gyfarwyddwr y GIG yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

Dyma argraffiad cyntaf Lefelau Gofal Cymru, sy'n elfen allweddol o'r canllaw gweithredu sydd wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer gweithredu Deddf Lefelau Staffio (Cymru) 2016 yn genedlaethol.

Mae Lefelau Gofal Cymru wedi cael eu datblygu a'u profi yn ystod y ddwy flwyddyn ddiwethaf, trwy ymgysyllu yn helaeth â wardiau meddygol a llawdriniaeth aciwt i oedolion sy'n cymryd rhan ledled Cymru. Isod, nodir disgrifiadau o gleifion ar draws y pump lefel gofal nodweddiadol, o'r cyffredin a'r syml i'r difrifol a'r anrhagweladwy. Caiff y disgrifiadau eu rhannu mewn i anghenion, cyflyrau a sefyllfaoedd arferol y cleifion a'r asesiadau, ymyriadau a thasgau cysylltiedig a weithredir gan nyrsys.

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu cyngor, arweiniad a diffiniadau i dimau nyrsio sydd angen arnynt er mwyn darparu'r lefel gywir o ofal i gleifion unigol. Y lefel gofal yw prif ddata'r archwiliadau craffter cenedlaethol sy'n cael eu gweithredu bob chwe mis, ym mis Ionawr a Mehefin. Cesglir a dadansoddir y data hwn er mwyn darparu gwybodaeth gymharol ar yr ystod o lefelau staffio nyrsys a ddefnyddir ar bob ward sy'n cymryd rhan yng Nghymru.


Ynghyd â gwybodaeth ar lwyth gwaith a'r ffordd y defnyddir staff ar hyn o bryd, darperir y data hwn ar ffurf adborth i staff gweithredol ar gyfarpar a elwir y *Visualiser*.

Yna, caiff data o'r archwiliadau craffter ei ystyried ochr yn ochr â data cymharol cysylltiedig ag ansawdd y gofal. Yn ogystal, ystyrir y naratif proffesiynol o ran y pwysau gweithredol sydd wedi dylanwadu ar ofal cleifion a'r defnydd o staff nyrsio yn ystod cyfnod yr archwiliad.

Caiff y dadansoddiad hwn ei gynnwys yng Nghanllaw Statudol 2017, sef y triongiant, a dyma'r dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo Lefelau Staffio Nyrsys.

Gelwir y ddogfen hon yn 'Argraffiad Cyntaf' oherwydd y bydd hi'n parhau i ddatblygu ac esblygu. Byddwn yn dysgu mwy o ganlyniadau yr arcwiliad a bydd y broses weithredol yn cael ei gwerthuso a'i chynnwys yn y cysyniadau, y dulliau a'r cyfarpar a fydd yn cael eu dylunio a'u datblygu trwy'r Rhaglen Staffio Nyrsys. Er enghraifft, efallai bydd angen cynnwys disgrifiadau ychwanegol ar gyfer abenigeddau clinigol penodol.

Ar hyn o bryd, mae yna chwe gweithgor sydd ar wahanol gyfnodau datblygu, gyda phob un yn canolbwyntio ar wahanol feysydd nyrsio. Y bwriad yw i bob ffrwd gwaith gynhyrchu Lefelau Gofal Cymru ei hunain, yn seiliedig ar yr un model cyffredin o angen y claf. Wrth i'r offer gael eu datblygu a'u profi, byddant yn cael eu cyhoeddi fel penodau ychwanegol yn argraffiadau'r dyfodol.





Er mwyn cefnogi mabwysiadu Lefelau Gofal Cymru, mae'r Rhaglen Staffio Nyrsys yn darparu gweithdai a dosbarthiadau meistri ym mhob Bwrdd Iechyd. Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu cynllunio i helpu arweinwyr lleol i baratoi ar gyfer cyflwyniad y Ddeddf. Maen nhw'n darparu cyfleoedd i staff nyrsio rannu dysgu, magu hyder wrth ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru, gallu deall a dehongli'r data a chyfrannu at y triongli angenrheidiol.

Ruth Walker

Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio Lefelau Gofal Cymru, sydd wedi cael eu datblygu er mwyn cael eu defnyddio mewn ardaloedd cleifion mewnol (oedolion) yn GIG Cymru i gynorthwyo staff nyrsio i fesur lefelau craffter cleifion.

Mae Lefelau Gofal Cymru'n cynnwys 5 lefel o graffter: o Lefel 5, lle mae'r claf yn hynod ansefydlog, mewn perygl ac angen gofal nyrsio un i un, dwys a pharhaus; i Lefel 1, lle mae cyflwr y claf yn sefydlog, yn rhagweladwy ac yn galw am ofal nyrsio sylfaenol.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut gall nyrsys ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru i sicrhau bod eu cleifion yn derbyn y lefel gofal cywir, trwy ddarparu disgrifiadau o'r mathau o gleifion arferol ar bob lefel gofal. Caiff y disgrifiadau eu rhannu yn categorïau mwyfwy penodol:

- **Disgrifiadau Lleyg - disgrifiad syml o gyflwr arferol y claf a'r mathau o ofal**
Disgrifiadau Clinigol - mwy o fanylion, gan gynnwys ystyriaethau proffesiynol ar bob lefel
Themâu Nyrsio - manylion technegol am y cyflwr a'r ymyriadau angenrheidiol ar bob lefel

Datblygwyd y disgrifiadau hyn trwy archwiliadau a thrafodaethau manwl gydag ystod eang o staff nyrsio o nifer o ddisgyblaethau. Maen nhw wedi cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n sicrhau bod y categorïau yn gydlynol ar draws y 5 lefel gofal, gan arwain at raddio mwy cyson o ran paru cleifion gyda'r lefel gofal cywir.

Sut i ddewis y lefel gofal cywir

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae disgwyl y bydd y Disgrifiadau Lleyg yn ddigonol er mwyn pennu'r lefel gofal cywir. Mae'r Disgrifiadau Lleyg manwl i'w gweld ar dudalen 10, ond cânt eu crynhoi fel y ganlyn:

Lefel 5

Gofal Un i Un

Mae angen goruchwyliaeth a gofal nyrsio parhaus, 24 awr y dydd, ar y claf, gan o leiaf un person.

Lefel 4

Gofal Brys

Mae cyflwr y claf yn hynod ansefydlog ac anrhagweladwy, naill ai o ran y broblem sylfaenol neu o ganlyniad i ddirywiad ffactorau cysylltiedig arall.

Lefel 3

Gofal Cymhleth

Efallai bod gan y claf nifer o broblemau, gyda rhai ohonynt yn rhyngweithio â'i gilydd gan ei gwneud hi'n anos rhagweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol.

Lefel 2

Llwybr Gofal

Mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir ond efallai bod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar y driniaeth a ddarperir.

Lefel 1

Gofal Arferol

Mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir, heb lawer o ffactorau cymhleth ychwanegol.

Os nad yw'r Disgrifiadau Lleyg yn ddigonol, gall y nyrs sy'n cwblhau'r archwiliad craffter gyfeirio at y Disgrifiadau Clinigol er mwyn pennu'r lefel gofal cywir. Unwaith eto, os nad yw hynny'n ddigonol, gall y nyrs gyfeirio at y Disgrifiadau Themâu Nyrsio: Asesu ac Arsylwi; Anadlu; Gofal Personol, Maetheg a Hydradiad; Gwybyddiaeth a Chyfathrebu; a Meddyginiaeth.

Mae'n bosibl i glaf gael anghenion sy'n berthnasol i wahanol lefelau gofal yn ôl y Themâu Nyrsio. Canllaw yn unig yw'r disgrifiadau hyn ac, yn y pen draw, bydd angen i'r nyrs sy'n cyfrifo'r sgôr gydgasglu'r wybodaeth a dod i gasgliad proffesiynol rhesymol o ran y lefel gofal sy'n disgrifio'r claf orau, yn unol â gofynion yr archwiliad craffter. Yn amlwg, bydd lefel gofal cleifion yn newid a bydd angen adolygu'r sgôr yn rheolaidd.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw craffter?

Gellir diffinio craffter fel ffordd o fesur dwyster y gofal nyrsio sydd ei angen ar glaf. At ddiben y gwaith hwn, rydym yn defnyddio'r term 'craffter' fel term ymbarél sy'n cwmparu termau eraill, fel dibyniaeth, dwyster, anrhagweladwyedd a chymhlethdod, i ddisgrifio'r lefel gofal sydd ei hangen ar glaf yn seiliedig ar ei anghenion nyrsio cyfannol.

Pam fod y ddogfen yn cynnwys cymaint o ddisgrifiadau?

Canllaw cyfeirio yw dogfen Lefelau Gofal Cymru, yn hytrach na phroses weithredol sydd i gael ei dilyn o'r dechrau i'r diwedd bob tro caiff claf ei asesu. Mae angen i nyrsys wneud penderfyniad proffesiynol am lefelau craffter eu cleifion, ac mae'r ddogfen hon yn ffordd syml, ond digonol, o ddarparu gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau'r nyrsys.

Mae adborth staff wedi dangos bod modd defnyddio'r Disgrifiadau Lleyg er mwyn categoreiddio cleifion yn gyson, a bydd y Disgrifiadau Clinigol a'r Themâu Nyrsio cael eu defnyddio i ddarparu arweiniad pellach i helpu staff wrth categoreiddio eu cleifion.

Oes hyfforddiant ar gael i gynorthwyo staff i ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru?

Mae llawlyfr yn cael ei ddatblygu i helpu staff i ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru. Mae byrddau iechyd yn cynnal sesiynau lleol gyda rheolwyr ward a staff i archwilio defnydd ymarferol Lefelau Gofal Cymru ac i drafod sut caiff eu cleifion 'arferol' eu categoreiddio.

Pam bod y lefelau'n cael eu rhestru o 1 i 5?

Rhestrir y lefelau o'r lefel isaf, sef Lefel 1 ar y gwaelod, i'r lefel uchaf, sef Lefel 5 ar y brig. Cynlluniwyd fformat y lefelau i gyd-fynd â'r dull greddfoll o wneud penderfyniadau ymarferol ac i ddynwared ciwiau cyfarwyddiadol mewn offer megis thermomedr, hynny yw, oer ar y gwaelod a chynnes ar y brig. Yn ogystal, rydym hefyd wedi defnyddio'r ciw hwn i gynhyrchu'r *Visualiser* sy'n atgynhyrchu'r patrwm o 1 ar y gwaelod a 5 ar y brig, ac sy'n cael ei ddefnyddio fel dyfais gwirio synhwyrau pwerus.

Pam cael Disgrifiadau Lleyg?

Un o ofynion y Ddeddf yw rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd gan ddefnyddio iaith sy'n hawdd ei deall. Mae'r Disgrifiadau Lleyg yn defnyddio iaith eglur, syml ac arferol, gan osgoi defnyddio termau technegol i ddisgrifio anghenion y cleifion ar bob lefel gofal. Byddwn yn

parhau i ddatblygu a mireinio'r disgrifiadau hyn er mwyn cynhyrchu ystod o fersiynau hygyrch o'r naratif hwn er mwyn eu rhannu gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Rydw i'n pryderu nad yw'r amser y casglwyd y data yn adlewyrchu craffter arferol y ward yn gywir.

Yr enw ar y dull casglu data yw 'archwiliad chwim' (*spot audit*), sydd wedi'i gynllunio i nodi craffter claf ar adeg benodol o amser yng nghanol y dydd. Mae'n debygol y bydd achlysuron pan fydd claf craffter isel yn cymryd lle claf craffter uwch ar y ward cyn cynnal archwiliad, ac fel arall ac felly ni fydd yr archwiliad yn adlewyrchu craffter y cleifion ar y ward yn hollol gywir ar bob achlysur. Fodd bynnag, wrth ddewis amser penodol yn ystod y dydd i gynnal archwiliad, ni ddylai'r canlyniadau terfynol sy'n cael eu dadansoddi eu heffeithio'n ormodol. Mewn geiriau arall, mae casglu data ar amseroedd penodol yn cydadfer unrhyw newidiadau anrhagweladwy o ran craffter. Er enghraifft, efallai bod y claf sydd yn y gwely'n aros i fynd adref, neu efallai ei fod yn glaf sydd o dan oruchwyliaeth ddwys ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty yn ddiweddar iawn.

Yn ddelfrydol, byddai modd i ni gasglu data amlach, ac mae cynlluniau yn y dyfodol i symud tuag at gasglu data craffter yn barhaus mewn perthynas â chleifion unigol. Wrth i'r gwelliannau technolegol cysylltiedig â'r cynllun gael eu cyflwyno, mae'n debygol bydd yr archwiliad yn symud o gasglu data unwaith y diwrnod tuag at gasglu sgorau craffter cleifion penodol wrth i lefelau craffter y claf newid. Ar hyn o bryd, nid yw'n rhan swyddogol o'r rhaglen.

Beth ddylwn i'w wneud os yw'r gwely yn wag neu wedi ei wagio'n ddiweddar ar amser y casglu data?

Er mwyn cwblhau archwiliad craffter, rhaid graddio pob claf sy'n cael gofal ar y ward ar amser yr archwiliad. Peidiwch ag edrych yn ôl er mwyn darogan sgôr ar gyfer y ddeuddeg awr flaenorol, oherwydd byddai hynny'n annilysu'r dull a'r dadansoddi, oherwydd bod y sgôr yn gysylltiedig â'r claf, nid y gwely. Mae gwely gwag yn wely gwag. Cydnabyddir na fydd hi'n bosibl archwilio pob claf am y union 3pm.

Gellir cydgasglu'r wybodaeth ychwanegol am fynychwyr a hebryngwyr y ward dros y 12 awr flaenorol a'i phasio ymlaen er mwyn cwblhau'r archwiliad. Yn y bôn, ar gyfer cyfnod o 24 awr, mae angen i ni gasglu'r canlynol: sampl o lefelau gofal y cleifion; faint o amser nyrsio sy'n cael ei dreulio ar y ward yn ystod y 24 awr o dan sylw; a nifer fach o ddangosyddion ychwanegol, yn unol â diffiniad y cyfarpar archwilio.

Sut ydw i'n graddio claf sydd angen gofal 1:1 yn seiliedig ar ei lefel angen, er bod y cleifion yn cael eu carfannu oherwydd diffyg argaeledd adnoddau?

Yn anochel, bydd yna gleifion sydd â lefelau uwch o graffter (cleifion Lefel 4 sydd angen gofal 1:1 am ran fwyaf y dydd, a chleifion Lefel 5 sydd angen gofal 1:1 am 24 awr y dydd). Nod y cyfarpar yw mesur lefel y gofal sydd ei angen ar gleifion. Os oes angen gofal 1:1 ar gleifion ond nad oes modd darparu'r lefel gofal hon, bydd cleifion yn cael eu carfannu er mwyn lleihau'r perygl. Dylid cofnodi'r cleifion hyn fel cleifion Lefel 5. Dylai'r uchod gael ei adlewyrchu yn y naratif gweithdrefnol a dylid archwilio'r rhesymau, oherwydd mae'n bosibl y bydd y data sy'n cael ei gofnodi yn arwain at amlygu lefelau staffio annigonol o ystyried craffter y cleifion hyn.

Mae'n bwysig cydnabod lle nad oes modd darparu gofal 1:1 i gleifion sydd wedi'u hasesu fel cleifion sydd angen gofal un i un oherwydd diffyg adnoddau staff, dylai'r sefyllfa hon gael ei hadrodd i fyrdau iechyd lleol er mwyn gweithredu gweithdrefnau gwaethygiad.

Sut ydw i'n dosbarthu cleifion sy'n cael ei carfannu?

Ystyr 'carfannu' yn yr achos hwn yw gwneud penderfyniad proffesiynol bod angen lefel debyg o oruchwyliaeth ar glaf neu grŵp o gleifion. Rhaid gweithredu'n broffesiynol wrth benderfynu lefelau craffter y cleifion, o ystyried y bydd y cleifion yn y gulfan yn rhannu'r gofal nyrso sydd ar gael.

Enghraifft 1: Mewn culfan sy'n cynnwys dau wely, lle mae dau glaf wedi'u carfannu er mwyn cael gofal gan un aelod staff 24 awr y dydd, byddai hynny gyfwerth â gofal 1:1 am fwyafrif y gofal, felly byddai'r ddau glaf yn cael eu categoreiddio fel cleifion Lefel 4.

Enghraifft 2: Wrth garfannu nifer o gleifion gyda'i gilydd er mwyn gwella'r lefel goruchwyliaeth sydd ar gael iddynt, nid yw hynny'n golygu bod angen yr un lefel goruchwyliaeth ar bob un ohonynt. Mae'n bosibl bod gan gleifion sydd wedi'u carfannu lefelau craffter gwahanol, felly ni fyddai'n addas i'r cleifion hynny gael eu categoreiddio ar lefelau gwahanol. Wrth garfannu cleifion, rhaid defnyddio barn broffesiynol er mwyn penderfynu ar lefel gofal pob claf.

Pam fod y lefelau wedi cael eu hailenwi? A fydd y cyswllt â'r lefelau gofal hanfodol yn cael ei golli?

Un o'r problemau cysylltiedig â mesur craffter yw camddehongli'r dull enwi a ddefnyddir gan unedau gofal dwys sy'n dosbarthu Unedau Dibyniaeth Uwch ac Unedau Gofal Dwys fel lefelau 2 a 3, gan adael Lefel 1 yn unig ar gyfer disgrifio pob claf arall. Nid yw'r cyfeiriad hanesyddol hwn at ddwystr yn berthnasol mwyach.

Yn ystod cyfnod cynnar datblygu'r dosbarthiad gwreiddiol, gosodwyd y cysail nad yw aelodau staff yn gallu gosod eu cleifion yn Lefel 4 neu 5 oherwydd cadwyd y lefelau hyn ar gyfer cleifion sydd angen gofal hanfodol.

Mae Lefelau Gofal Cymru wedi'u seilio ar fodel ategol o anghenion y claf yn erbyn y gallu i ymateb. Crëwyd Lefelau Gofal Cymru at ddefnydd cyffredinol ac rydym wedi newid y lefelau i 1-5 er mwyn symleiddio'r broses godio ac i alluogi staff i gydgasglu graddau craffter y cleifion er mwyn mesur cyfanswm craffter y llwyth achosion.

Ydy'r cyfarpar yn parhau i fod yn gywir, hyd yn oed ar ôl newid rhai o'r disgrifiadau?

Mae'r disgrifiadau wedi cael eu diwygio a'u gwella yn ystod gweithdai cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith yn cael ei ddilysu a Lefelau Gofal Cymru (Fersiwn 1) yn cael eu profi trwy archwiliadau ddwywaith y flwyddyn ac adborth staff. Mae Lefelau Gofal Cymru wedi cael eu cynllunio i alluogi staff i fanylu a disgrifio anghenion y claf ac i nodi lefel craffter y claf. Byddwn yn parhau i ddadansoddi Lefelau Gofal Cymru trwy archwiliadau ddwywaith y flwyddyn a byddwn yn gwneud diwygiadau pellach yn ôl yr angen.

Ydym ni'n defnyddio lluoswyr i benderfynu faint o aelodau staff sydd eu hangen?

Mae'r Ddeddf yng Nghymru'n dilyn dull gwaith clir a diffiniedig, gan ddefnyddio methodoleg drionglog i gyfrifo faint o amser nyrsio sydd ei angen. Rydym yn gweithredu proses fonitro lefelau staff llawer llymach yn barhaus, yn hytrach na dibynnu ar set o luoswyr damcaniaethol. Ffocws y gwaith yw cyfrifo'r lefel staffio trwy ddefnyddio'r dull gwaith trionglog, sy'n galluogi ni i fod yn hyblyg o ran nifer a chymysgedd sgiliau'r staff, yn seiliedig ar anghenion y cleifion ar y pryd.

Sut gallwn ni fesur yr amser a dreuliwyd ar fynychwyr / hebryngwyr ward?

Hyd yn hyn, mae'r holl waith wedi canolbwyntio ar gleifion mewnol traddodiadol. Yn seiliedig ar adborth, mae timau ward yn gweithredu ystod llawer ehangach o weithgareddau, gan gyfuno gweithgareddau cleifion mewnol traddodiadol gydag achosion dydd a mynychwyr ward. Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd i adnabod a diffinio'r craffter ychwanegol hwn a'r effaith ar amser nyrsio. Wrth i'r gwaith ddatblygu o ran soffistigedigrwydd, bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys fel rhan o'r gweithgaredd a'r lefelau staffio a ddefnyddir ar gyfer pob ward.

Mae yna gynlluniau i greu cyfwerthedd gwelyau ar gyfer nifer y mynychwyr ward a'r ffordd mae hynny'n cyfateb i lefelau staffio. Bydd y gwaith hwn yn cael ei weithredu ochr yn ochr â gweithgareddau eraill sy'n effeithio ar nifer y staff sydd eu hangen ar y ward.

Sut mae'r data'n cael ei ddadansoddi?

Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan ddadansoddwyr sy'n gweithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC). Maen nhw'n tynnu'r data o'r System Monitro Gofal Iechyd, yn ei gyfuno mewn cronfa ddata ac yn cynhyrchu siartiau ar gyfer pob ward sy'n cymryd rhan gan ddefnyddio cyfarpar a elwir y *Visualiser*. Yna, caiff y data hwn ei rannu gydag arweinwyr lleol at ddiben dehongli.

Nid oes unrhyw ddehongli canolog nac adrodd ar gydgasglu data i unrhyw unigolyn neu sefydliad y tu hwnt i'r safleoedd a'r wardiau sy'n cymryd rhan. Nid oes gan ICC rôl o ran darparu gwybodaeth neu adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y data sy'n cael ei gasglu fel rhan o Raglen Staffio Nyrsys Cymru Gyfan. Yn hytrach, dyna gyfrifoldeb y byrddau iechyd sy'n cymryd rhan. Yn ogystal, rhennir y *Visualiser* ac offer a thechnegau dadansoddol er mwyn cyfoethogi trafodaethau a phenderfyniadau'r grŵp ffrwd gwaith oedolion.

Pam cymryd ciplun o ddata'r archwiliad?

Nid oes unrhyw gyfarpar sy'n bodoli ar hyn o bryd sy'n gallu disgrifio'r holl ofynion sy'n berthnasol i amser nyrsio. Yr unig ffordd o wneud hynny yw mesur amseriadau a sgorau pob claf pan mae eu craffter yn newid ac, yn seiliedig ar y craffter, pwyso a mesur yn fathemategol faint o amser yn ystod pob awr mae pob claf yn aros ar bob lefel o graffter, cyn adio'r amser crynswth at ei gilydd a'i rannu gyda nifer yr oriau. Dylai hynny gyfrifo'r lefel gofal cyfartalog.

Yn amlwg, mae'r uchod yn gymhleth iawn, ac nid oes gennym yr amser na'r dechnoleg i'w hwyluso. Yn ogystal, nid ydym yn gwybod beth yw'r gwerth mathemategol cywir ar gyfer pob lefel. O ganlyniad, rydym yn defnyddio nifer o dechnegau ystadegol i fesur patrymau

gweithgarwch (gan gynnwys craffter cleifion, llif cleifion a staffio a ddefnyddir) dros amser. Mae amser penodol dyddiol yr archwiliad yn helpu i hwyluso'r dadansoddi a, thrwy archwiliadau dwywaith y flwyddyn, rydym yn parhau i ddatblygu sail tystiolaeth gadarn er mwyn cefnogi effeithiolrwydd gwneud penderfyniadau amserol.

Sut y gallwn ni fesur craffter mewn meysydd trosiant uchel?

Cydnabyddir bod y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gwblhau'r archwiliad craffter yn cydweddu i fodel gweithgarwch cleifion mewnol traddodiadol. Mae hynny'n golygu nad yw gweithgareddau ar y ward sydd â graddfeydd trosiant llawer cynt yn cael eu mesur yn gywir.

Mae techneg archwilio ychydig yn wahanol yn cael ei phrofi ar hyn o bryd mewn rhai lleoedd sy'n rhan o'r llif gwaith oedolion, er enghraifft unedau asesu a gofal dydd, er mwyn datblygu proses ystyrlon o fesur y math hwn o alw.

Disgrifwyr Lleyg

Mae'r Disgrifwyr Lleyg yn darparu gwybodaeth ar nodweddion cyffredinol y claf mewn perthynas â phob lefel gofal.

LEFEL 5 Gofal Un i Un	Mae angen goruchwyliaeth a gofal nyrsio parhaus, 24 awr y dydd, ar y claf, gan o leiaf un person. Mae'r claf yn hynod ansefydlog, anrhagweladwy, mewn perygl uniongyrchol o niwed neu'n dirywio'n ddifrifol yn glinigol. Efallai nad oes problem sylfaenol a nodwyd yn glir ac mae'n bosibl bod cyflwr y claf, y cynllun gofal, arsylwadau, adolygiad clinigol, penderfyniadau a'r gwaith o ddarparu gofal yn cynnwys cyfuniad o ffactorau a ddisgrifir yn y lefelau gofal is.
LEFEL 4 Gofal Brys	Mae cyflwr y claf yn hynod ansefydlog ac anrhagweladwy, naill ai o ran y broblem sylfaenol neu o ganlyniad i ddirywiad ffactorau cysylltiedig arall. Efallai bydd y cynllun gofal presennol neu hirdymor yn cael ei ohirio, wrth i driniaethau ac ymyriadau amgen gael eu gweithredu er mwyn osgoi unrhyw waethygu pellach neu i ddiogelu'r claf. Efallai bod cyflwr y claf yn newid yn gyflym ac, o ganlyniad, mae lefelau uchel o arsylwi a goruchwyllo ar waith, neu'n cael eu darparu yn barhaol trwy gydol y dydd. Gweithredir uwch adolygiad clinigol yn rheolaidd. Mae'r gwaith o ddarparu gofal yn amlweddog ac yn cynnwys nifer uchel o ymyriadau medrus iawn a gweithdrefnau technegol, ynghyd â gweithdrefnau technegol a nifer o dasgau er mwyn darparu gofal un i un llawn. Mae'n bosibl mai gallu'r claf i gyfrannu at y gofal parhaus a chynnal ei ddiogelwch personol a diogelwch pobl eraill yw'r prif ffactor o ran ei ansefydlogrwydd parhaus ac, o ganlyniad, mae angen camau gweithredu ac ymyriadau sydd y tu hwnt i arferion arferol y tîm nyrsio arno.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	Efallai bod gan y claf nifer o broblemau a nodwyd, gyda rhai ohonynt yn rhyngweithio â'i gilydd gan ei gwneud hi'n anos rhagweld canlyniad unrhyw driniaeth unigol. Yn aml, mae'r cynllun gofal yn aml-ddisgyblaethol ac yn cael ei rannu yn amcanion ac yn gamau llai, ac yn cynnwys arsylwadau parhaus ac adolygiadau rheolaidd gan y tîm aml-ddisgyblaethol. Efallai bod y claf yn cael cyfuniad o driniaethau gan fwy nag un llwybr traddodiadol, neu ei fod yn cael triniaeth fesul cam i oroesi problemau byrdymor, wrth gynllunio gofal sy'n anelu at adferiad parhaus neu gymorth hirdymor. Bydd y gwaith o ddarparu gofal yn cynnwys nifer o ymyriadau medrus a nifer o dasgau, gan gynnwys gofal un i un agos ar gyfer gweithgareddau bob dydd arferol, ac mae perygl y bydd y claf yn cael niwed heb y cymorth clôs hwn. Mae'n bosibl y bydd canlyniad y driniaeth yn amrywio'n fawr ac efallai y bydd angen goruchwyliaeth agos ar y claf ac asesiadau parhaus gan ystod o staff i ddelio â phroblemau wrth iddynt godi ac addasu'r cynllun gofal.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	Mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir ond efallai bod nifer fach o ffactorau ychwanegol sy'n effeithio ar y driniaeth a ddarperir. Mae'r gofal wedi'i gynllunio'n fanwl ond mae angen arsylwadau rheolaidd er mwyn cadw llygad ar unrhyw amrywiaethau neu newidiadau annisgwyl yng nghyflwr y claf. Caiff y gwaith o ddarparu gofal ei ddisgrifio'n fanwl mewn llwybr sydd wedi'i gynllunio er mwyn darparu triniaeth benodol ar gyfer problem gyffredin. Bydd y gwaith o ddarparu gofal yn cynnwys nifer o dasgau arferol wedi'u cynllunio ar y cyd, rhai ymyriadau medrus a phenderfyniadau clinigol parhaus sy'n aros o fewn arferion arferol y tîm nyrsio.
LEFEL 1 Gofal Arferol	Mae gan y claf broblem sydd wedi'i diffinio'n glir, heb lawer o ffactorau cymhleth ychwanegol. Mae'r cynllun gofal yn syml ac, er bod arsylwadau parhaus o bosibl yn cael eu hamserlennu, mae'r deilliannau yn rhagweladwy heb amrywio llawer o'r hyn sydd i'w ddisgwyl. Mae'r gwaith o ddarparu gofal yn syml ac yn cynnwys nifer o dasgau, gan gynnwys ymyriadau medrus sydd yn gyfan gwbl o fewn arferion arferol y tîm nyrsio.

Disgrifwyr Clinigol

Mae'r Disgrifwyr Clinigol yn darparu trosolwg o'r math o glaf a'r ymyriadau nyrsio sydd eu hangen er mwyn diwallu'r anghenion ar bob lefel gofal.

LEFEL 5 Gofal Un i Un	• Angen lefel debyg o ofal nyrsio â chlaf mewn uned gofal dwys arferol oherwydd bod cyflwr y claf yn hynod anrhagweladwy. • Y claf yn gwaethygu'n gyflym heb reswm hysbys. • Angen ymyrraeth frys a lefelau dwys o ofal nyrsio ar lefel un i un, 24 awr y dydd. • Y claf mewn perygl go iawn o niwed, ac angen monitro parhaus, er enghraifft: wrth aros i gael ei symud i uned gofal dwys.
LEFEL 4 Gofal Brys	• Angen lefel debyg o ofal nyrsio â chlaf mewn uned dibyniaeth uchel arferol, er enghraifft, gwely ymroddedig i gleifion perygl uchel. • Cleifion sydd angen gofal 2:1 24 awr y dydd, neu ofal 1:1 am y rhan fwyaf o'r dydd. • Angen ymyrraeth fedrus iawn a rhagweithiol er mwyn atal cyflwr y claf rhag dirywio neu fod angen ymyrraeth frys oherwydd bod cyflwr y claf yn newid yn gyflym neu'n parhau i fod yn ansefydlog. • System organ unigol sy'n dirywio neu sydd o dan fygythiad. • Cynnal a sefydlogi cyn trosglwyddiad brys. • Monitro ewnwthiolcyn llawdriniaeth ac optimeiddio estynedig ar ôl llawdriniaeth. • Haint neu fadredd difrifol.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	• Efallai bod cyflwr y claf yn sefydlog, ond mae yna bosibilrwydd y bydd yn newid yn gyflym. • Aml-glefydon sydd angen ymyriadau cyson neu arsylwi agos. • Anghenion cymhleth, sydd angen gwahanol lefelau o gymorth i gyflawni tasgau bywyd bob dydd sylfaenol. • Cleifion sydd mewn cyflwr sefydlog ond sy'n dibynnu ar ofal nyrsio er mwyn diwallu'r rhan fwyaf o weithgareddau bywyd bob dydd. • Hwyluso rhyddhad cymhleth o dan oruchwyliaeth nyrs y ward.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	• Mae cyflwr y claf yn rhagweladwy ond yn gallu amrywio. • Mae cyflwr y claf yn cael ei reoli trwy lwybrau gofal. • Mae angen cymorth ychwanegol ar y claf i gael ei ryddhau o'r ysbyty, e.e. pecyn gofal neu atgyfeiriad at wasanaeth nyrsio rhanbarthol. • Gofal ôl-lawdriniaeth gymhleth.
LEFEL 1 Gofal Arferol	• Mae'r claf yn sefydlog ac mae'r gofal yn sylfaenol, heb lawer o amrywiaeth. • Gofal ar ôl llawdriniaeth arferol. • Efallai bydd angen mewnbwn gan therapydd cyn rhyddhau'r claf. • Mae gan y claf nifer fach o anghenion sydd wedi'u diffinio'n eglur. • Mae'r gofal sydd ei angen yn amlwg ac yn seiliedig ar dasgau. • Mae'r holl weithgareddau yn rhan o arferion dyddiol y ward, e.e. derbyniadau meddygol neu lawdriniaethol dewisol.

Thema Nyrsio 1

Asesu ac Arsylwi

LEFEL 5 Gofal Un i Un	- Gofal nyrsio 1:1 yn barhaus dros gyfnod 24 awr. - Monitro a therapi ategol ar gyfer methiant o leiaf dwy organ neu system. - Angen monitro manwl a pharhaus am gyflwr sy'n bygwth bywyd. - Angen arsylwi parhaus oherwydd cyflwr hynod ansefydlog ac anrhagweladwy'r claf.
LEFEL 4 Gofal Brys	- Cyflwr ansefydlog sy'n galw am arsylwi parhaus, er enghraifft monitro'r galon, monitro pwysedd mewnwthiol, monitro niwrolegol mewnwthiol. - Y claf yn derbyn ymyriadau ar gyfer NEWS (Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol). - Derbyniadau brys sydd angen ymyrraeth therapiwtig ar unwaith. - Cleifion sydd angen gofal 2:1 24 awr y dydd, neu ofal 1:1 am y rhan fwyaf o'r dydd. - Angen monitro ac arsylwi parhaus bob 1-2 awr oherwydd cyflwr ansefydlog ac anrhagweladwy'r claf. - Cywasgiad cord gydag asgwrn cefn ansefydlog, er enghraifft, angen rholyn corff ar y claf.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	- Arsylwadau niwrolegol bob 2-4 awr. - Lefelau ymwybyddiaeth newidiol. - Rheolaeth NEWS (Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol) parhaus. - Perygl o gwmpo sydd angen goruchwyliaeth agos.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	- Dadansoddi nwy gwaed rhedweliol achlysurol. - Lefel gynyddol o arsylwi ac ymyrraeth therapiwtig. - Pwynt tanio NEWS wedi'i gyrraedd, sydd angen dwysâd. - Y claf yn sefydlog, er bod angen monitro ac ymyrraeth reolaidd. - Gofal cymhleth yn dilyn llawdriniaeth. - Y gofal yn cael ei benderfynu ar sail llwybr gofal sefydledig.
LEFEL 1 Gofal Arferol	- Triniaeth barhaus am gyflwr meddygol sylfaenol. - Gofal ôl-lawdriniaethol sylfaenol, er enghraifft angen cynnal arsylwadau bob hanner awr i gychwyn, ac yna bob pedair awr. - Arsylwadau arferol bob 2-4 awr. - NEWS o fewn terfynau arferol. - Monitro ECG. - Asesu gwaed.

Thema Nyrsio 2

Anadlu

LEFEL 5 Gofal Un i Un	- Gostyngiad neu gyfaddawdu o ran anadlu neu'r System Nerfol Ganolog sydd angen cymorth awyru mecanyddol neu oresgynnol. - Traceostomi brys neu dros dro sydd angen monitro parhaus a gofal 1:1. - Pibell awyru gymhleth sydd angen monitro parhaus ac ymyrraeth gyson. - Monitro ac ymyrraeth yn syth ar ôl ataliad cardiaidd neu anadlol. - Cleifion sydd angen cymorth anadlol dwys mewn perthynas â nifer o organau.
LEFEL 4 Gofal Brys	- Y 24 awr gyntaf ar ôl gosod traceostomi neu ofal parhaus o draceostomi ansefydlog. - Cleifion sy'n dioddef o fethiant anadlol aciwt, sydd angen cymorth awyru neu anadlol heb fod yn fewnwithiol gan ddefnyddio CPAP (Pwysedd Llwybr Awyru Cadarnhaol Parhaus) neu BiPAP (Pwysedd Llwybr Awyru Cadarnhaol Aml-lefel). - Dros 50% ocsigen yn barhaus. - Gostyngiad o ran y System Nerfol Ganolog ac atblygiadau. - Trwytho cyson ar lif ocsigen uchel. - Risg uchel o allsugno neu'r angen am sugnad ffaryncs cegol.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	- Y 24 awr gyntaf ar ôl gosod llinell ganolog traceostomi, epidwrol, nifer o ddraeniau brest neu draeniau gwythiennol ychwanegol. - Angen newydd neu gynyddol am lai na 50% ocsigen. - Rheolaeth gymhleth o ddraeniau brest. - Cleifion sydd angen cymorth awyru neu anadlol heb fod yn fewnwithiol ac arsylwi manwl ar gyfer cymhlethdodau. - Newidiadau cyson i BiPAP neu CPAP.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	- Therapi ocsigen dros 35%. - Ffisiotherapi brest rheolaidd, er enghraifft bob 2-6 awr. - Gofal BiPAP neu CPAP parhaus. - Gofal parhaus i ddraeniau brest cymhleth. - Gofal parhaus ar gyfer traceostomi sefydlog.
LEFEL 1 Gofal Arferol	- Therapi ocsigen llai na 35%. - Gofal arferol o ddraen brest unigol. - Ocsigen hirdymor. - Awyru sefydlog, hirdymor heb fod yn fewnwithiol.

Thema Nyrsio 3

Gofal Un i Un, Maetheg a Hydradiad

LEFEL 5 Gofal Un i Un	Y claf yn gwbl ddibynnol ar gymorth i wneud pob gweithgaredd o ddydd iddydd, yn methu â chyfrannu at ei ofal ei hun ac angen ymyrraeth a gofal 1:1 parhaus.
LEFEL 4 Gofal Brys	- Cleifion sydd angen gofal 1:1 am y rhan fwyaf o'r diwrnod a hefyd angen o leiaf dau aelod staff i'w helpu â gweithgareddau o ddydd i ddydd. - Briwio neu glwyf sy'n gwaedu'n barhaus sydd angen ymyrraeth fwy na thair gwaith y dydd. - Risg uchel a hanes o oruchwyllo agos.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	- Rheolaeth clwyf cymhleth sydd angen mwy nag un nyrs, neu sy'n cymryd dros awr i'w gwblhau, neu reolaeth clwyf cronig o leiaf unwaith y dydd, neu glwyf sydd angen gofal ardal pwysedd bob 2 awr. - Anawsterau symudedd neu adleoli sydd angen cymorth dau unigolyn a / neu gymorth cyfarpar arbennig. - Cleifion sydd angen cymorth gyda'r rhan fwyaf o weithgareddau o ddydd i ddydd, neu sydd angen gofal un i un sy'n para dros awr. - Cleifion sydd ag esgyrn cefn ansefydlog, anaf i'r asgwrn cefn a / neu gyfyngiad i'r asgwrn cefn. - TPN (Maetheg Parenterol Cyfan) neu glaf sydd angen bwydo enterol bob 4 awr. - Allsgugno gyda chymorth tiwb stumogol (NGT).
LEFEL 2 Llwybr Gofal	- Cleifion sy'n gallu gwneud rhai gweithgareddau o ddydd i ddydd gyda chymorth. - Gofal ardal pwysedd bob 4 awr, gan gynnwys bwndel croen. - Cymorth i fwyta neu PEG (endosgopi gastrostomi trwy'r croen) / NGT arferol. - Gofal golchi clwyfau dyddiol sy'n cymryd hyd at 20 munud. - Gofal cathetr a monitro balans hylif.
LEFEL 1 Gofal Arferol	- Rheolaeth maetheg a hydradiad arferol. - Cleifion sydd angen cymorth achlysurol i wneud rhai gweithgareddau o ddydd i ddydd, er enghraifft cymorth unigolyn i godi, neu gleifion sy'n dioddef o anymataliaeth achlysurol. - Cleifion annibynnol sy'n gallu gofalu am eu hunain. - Symudol, gyda neu heb gymorth cyfarpar arbennig. - Rheolaeth clwyfau syml. - Gofal ardal pwysedd arferol.

Thema Nyrsio 4

Gwybyddiaeth a Chyfathrebu

LEFEL 5 Gofal Un i Un	• Claf treisgar a bygythiol sydd mewn perygl sylweddol o niweidio ei hun a/neu eraill, ac sydd angen goruchwyliaeth barhaus gan o leiaf un aelod staff, 24 awr y dydd. • Monitro parhaus o ddiffyg niwrolegol oherwydd y perygl o waethygu sydyn. • Cleifion sydd mewn perygl sylweddol sydd hefyd mewn perygl oherwydd eu hanallu i gyfathrebu mewn unrhyw ffordd. • Cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, sy'n anrhagweladwy iawn ac felly sydd angen goruchwyliaeth 1:1 barhaus.
LEFEL 4 Gofal Brys	• Cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, sydd angen goruchwyliaeth, cymorth ac ymyrraeth gyson trwy gydol y dydd. • Perygl o achosi niwed i'w hunain neu i eraill, a allai arwain at anaf. • Efallai bydd y cleifion yn cael eu carfannu er mwyn darparu goruchwyliaeth barhaus ar raddfa 2:1 am y rhan fwyaf o'r dydd. • Cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus ac sydd angen goruchwyliaeth ddwys.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	• Cleifion neu ofalwyr sydd angen cymorth seicolegol dwys o ganlyniad i ddiagnosis clefyd neu ddeilliant clinigol gwael. • Efallai bydd cleifion sydd wedi drysu ac sydd mewn perygl yn cael eu carfannu i mewn i grwpiau bychan er mwyn darparu goruchwyliaeth agos. • Cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus sydd angen ymyrraeth gan aelodau'r tîm amlddisgyblaeth. • Cleifion sydd ag anawsterau gwybyddiaeth a chyfathrebu sy'n profi pryder cynyddol ac sydd arnynt, o ganlyniad, angen cymorth a sicrwydd ychwanegol. • Gwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig. • Problemau cyfathrebu. • Cleifion pryderus sydd angen cymorth a sicrwydd. • Posiblirwydd o niwed damweiniol. • Cleifion sydd angen cymorth dwys yn ystod ymyrraeth nyrsio.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	• Cleifion sydd â nam gwybyddol a diffyg dealltwriaeth sy'n galw am gymorth, sicrwydd ac ymyrraeth barhaus. • Cleifion sydd â nam gwybyddol a diffyg sgiliau cyfathrebu, sydd efallai'n cael ei osod mewn gwely penodol er mwyn hwyluso'r goruchwyllo. • Cleifion sydd wedi'u drysu am gyfnodau neu sy'n arddangos ymddygiad heriol.
LEFEL 1 Gofal Arferol	• Cleifion sydd wedi'u drysu ond nad ydynt mewn perygl. • Cleifion ufudd neu sy'n gwbl abl. • Cleifion sydd angen peth mewnbyn seicolegol. • Cleifion sydd ag anawsterau iechyd meddwl, er nad ydynt yn effeithio ar eu gofal aciwt. • Cleifion sy'n gallu cyfathrebu eu hanghenion.

Thema Nyrsio 5

Meddyginiaeth

LEFEL 5 Gofal Un i Un	Monitro mewnwithiol, cyffuriau fasoweithredol, triniaeth o hypofolemia, gwaedlif, madredd neu ddiogelwch niwrolegol mewn claf sy'n destun ymyrraeth barhaus.
LEFEL 4 Gofal Brys	- Rheoli poen – analgesia asgwrn cefn. - Hydreiddiad cyffuriol sydd angen monitro dwys parhaus, er enghraifft cyffuriau fasoweithredol (amiodarone, inotropau, GTN) neu botasiwm, magnesiwm. - Cleifion ansefydlog sydd â gweithdrefn gyffuriau sy'n newid yn gyson.
LEFEL 3 Gofal Cymhleth	- Gweithdrefn gyffuriau fewnwythiennol gymhleth (gan gynnwys cleifion sydd angen gofal paratoadol neu ôl-ofal parhaus). - Therapi VAC lle mae'r nyrsys ar y ward yn gweithredu'r driniaeth. - Gweithdrefn feddyginiaeth gymhleth neu IVI (Hydreiddiad Mewnwythiennol). - Cleifion sydd angen cymorth i gymryd meddyginiaeth sy'n para dros 30 munud. - Arllwysiad gwaed. - Gosod llinell ganolog newydd neu gathetr symudol.
LEFEL 2 Llwybr Gofal	- Analgesia a reolir gan y claf sydd angen cael ei fonitro o dan oruchwyliaeth, er enghraifft werth ei osod yn y lle cyntaf neu os yw cyflwr y claf yn newid. - Gyrrwr chwistrell. - Dialysis peritoneol. - Cymorth i gymryd meddyginiaeth. - Mathau gwahanol o feddyginiaeth fewnwythiennol. - Meddyginiaeth isgroenol. - Atal nerfau, gyda chymhlethdodau posibl. - Gweinyddu cynnyrch gwaed safonol. - Llinell ganolog neu gathetr symudol wedi'u sefydlu.
LEFEL 1 Gofal Arferol	- Analgesia a reolir gan y claf wedi'i sefydlu. - Atal nerfau arferol. - Hunan-feddyginiaeth at ddiben rheoli symptomau.

Themâu technegol ac arbenigol ychwanegol

Rhagwelir y bydd Lefelau Gofal Cymru'n cael eu mireinio a'u pennu ymhellach, ac y bydd disgfrifwyr eraill, sy'n cyd-fynd â'r 5 lefel gofal, yn cael eu datblygu.

Er enghraifft, mewn meysydd sydd â charfannau penodol o gleifion, neu lle gweithredir mathau penodol o ymyriadau, er enghraifft maes cardioleg neu strôc, byddai modd gwneud mwy o waith er mwyn disgrifio cleifion arferol sy'n cydweddu â'r lefelau gofal yn gyffredinol. Efallai y bydd y gwaith yn ymestyn tu hwnt i orchwyl presennol wardiau meddygol a llawdriniaethol aciwt i oedolion, a byddai angen i unrhyw ddatblygiadau pellach gynnal uniondeb y strwythur sylfaenol a chydweddu â Lefelau Gofal Cymru.